*This document is available in English*

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub** |
| Rhif adroddiad | **FRA2017/09/07** |
| Dyddiad | **18 Medi 2017** |
| Swyddog Arweiniol | **Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Dawn Docx** |
| Pwnc | **Asesiad Drafft o Berfformiad yr Awdurdod 2016-17** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno'r asesiad drafft o berfformiad yr Awdurdod ac adroddiad cydraddoldeb blynyddol 2016-17 er mwyn cael cymeradwyaeth yr aelodau.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod, o dan y ddeddfwriaeth, lunio a chyhoeddi asesiad blynyddol o'i berfformiad a'i ddata cydraddoldeb. Mae'r ddwy agwedd hon wedi cael eu cyfuno mewn un ddogfen ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17 (yn Atodiad 1) ac mae'n cael ei chyflwyno er mwyn i'r aelodau gael ei hystyried ac er mwyn ceisio cymeradwyaeth yr aelodau i'w chyhoeddi.

**ARGYMHELLIAD**

3 Bod yr Aelodau'n:

(i) cymeradwyo'r asesiad drafft o berfformiad yr Awdurdod, a'r cynnydd wrth gyflawni ei amcanion gwella a chydraddoldeb yn ystod 2016-17, i'w cyhoeddi erbyn 31 Hydref 2017;

(ii) nodi y bydd taflen bapur liwgar, yn rhoi crynodeb o gynnydd yr Awdurdod wrth gyflawni ei amcanion gwella, yn cael ei chyhoeddi hefyd cyn diwedd y flwyddyn.

**SYLWADAU'R PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried gan yr Aelodau o'r blaen.

**GWYBODAETH**

5 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru gyhoeddi gwybodaeth am berfformiad yn ymwneud â phob blwyddyn ariannol erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn yn dilyn yr un y mae'r perfformiad yn ymwneud â hi. Mae hyn yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

6 Mae'r rhan gyntaf o'r adroddiad (Atodiad 1) yn darparu asesiad o'r modd y mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd gyffredinol i wella, ac o'i gynnydd mewn perthynas â'r amcanion gwella y gosododd iddo'i hun ar gyfer y llynedd. Mae hefyd yn crynhoi ei berfformiad mewn perthynas â dangosyddion perfformiad cenedlaethol a lleol penodol a mesurau llwyddiant.

7 Felly hefyd, mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru lunio cynllun cydraddoldeb strategol bob pedair blynedd ac i gyhoeddi adroddiad erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn ynglŷn â'r cynnydd wrth gyflawni'r cynllun hwnnw.

8 Er hwylustod felly, bydd y cynnydd mewn perthynas â'r amcanion gwella a'r amcanion cydraddoldeb yn cael eu hadrodd eleni o fewn un ddogfen i'w chyhoeddi cyn y dyddiad terfynol statudol cynharaf sef 31 Hydref 2017.

9 Fel rhan o'r gwaith o wirio'r ddogfen ar gyfer ei chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod, bydd y swyddogion yn sicrhau ei bod yn cynnwys yr wybodaeth allanol ddiweddaraf sydd ar gael a'r cyfeiriadau at ffynonellau; a byddant yn cywiro unrhyw fân wallau diwyg a/neu deipio.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae amcanion llesiant cyntaf yr Awdurdod, a osodwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, yn ymwneud â 2017-18. Felly, mae'r adroddiad hwn ar gyfer 2016-17 yn ymwneud â deddfwriaeth gynharach, er y bydd y camau gweithredu a gyflawnwyd gan yr ATA yn ystod 2016-17 hefyd wedi cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant ar gyfer Cymru. |
| Cyllideb | Mae cyhoeddi'r ddogfen lawn ar wefan yr Awdurdod, a darparu dim ond gwybodaeth gryno mewn taflenni papur, yn gymorth i gadw'r costau'n isel. |
| Cyfreithiol | Mae'r ddogfen gyfunol yn cyflawni dyletswyddau'r Awdurdod o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. |
| Staffio | Nid oes unrhyw oblygiadau staffio ychwanegol o ganlyniad i gynhyrchu'r ddogfen gyfunol na'r taflenni cryno. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ymdrinnir â'r holl nodweddion gwarchodedig o fewn yr adroddiad. |
| Risgiau | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol. |